

# lesu, goleuni'r byd

*“Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.”  
(adn. 17)*

## Beth am ddarllen Colosiaid 1:15–23 ac yna myfyrio

Mae'n amser bellach i ganolbwyntio ar un arall o weithredoedd Philistaidd ein cyfnod ni – celu'r gwirionedd am Iesu Grist. Caniatewch i mi roi ychydig o gefndir fy nghonsym yn y mater hwn. Un o eiriau mawr ail hanner yr ugeinfed ganrif oedd 'syncretiaeth' – yr ymdrech i gysoni holl grefyddau'r byd i mewn i un ffydd.

Beth bynnag, erbyn yr unfed ganrif ar hugain, mae pethau wedi newid. Y gair nawr yw 'plwraliaeth' – cydnabyddiaeth o integriti pob ffydd, a'r farn fod pob crefydd yn gyfartal. Ond nid yw pob crefydd yn gyfartal. Fel y dywedwyd eisoes, mae na bethau rhagorol ymhob crefydd ac mae Cristnogaeth yn cydnabod hyn. Er hynny, nid un grefydd ynghanol llawer o grefyddau yw Cristnogaeth. Mae mewn categori ar ei ben ei hun. Ein honiad ni am Gristnogaeth ac am y ffydd Gristnogol yw ei bod hi yn ffydd unigryw. Ni all yr un ffydd arall honni mai ei sylfaenydd oedd Duw yn ddyn. Yr ydym yn honni hynny am Iesu Grist. Mae diwinyddion yn cyfeirio at ei dduwdod – y ffaith ei fod o'r un hanfod â Duw. Fe ddylai fod unrhyw ddaol am hyn mewn unrhyw eglwys sydd yn honni ei bod yn Gristnogol oherwydd fel ag y dengys yr adran heddiw, “Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll.” Nid yw duwdod Iesu Grist yn fater i drafodaeth. Os nad yw Iesu Grist yn Dduw, yna mae'r ffydd Gristnogol yn sioe oherwydd fe honnodd y diffiniad yma ei hun.

Ni allwn ganiatáu i Iesu Grist gael ei osod yn gyfartal ac yn gyfwerth gyda phob proffwyd neu arweinydd crefyddol arall oherwydd ni ellir cymharu unrhyw un o'r duwiau nag unrhyw un o'r proffwydi gyda'r Iesu. Nid ydym yn anystyriol o rinweddau ysbrydol a all ddod o lampau eraill, ond yr ydym am gydnabod mai Iesu Grist, a Iesu Grist yn unig, yw goleuni'r byd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 9:1–7; Ioan 8:12; 12:35–36; Heb. 1:1–3

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa enwau wnaeth Eseia ei roi i'r mab oedd i ddod?
2. Beth sy'n digwydd wrth inni ymddiried yn y goleuni?

## Gweddi

Gwaredwr grasol, fe ddaethost ti oddi wrth Dduw i'n dwyn ni at Dduw. Rwyd wedi peri fod goleuni yn gorlifo i mewn i fywyd y byd, goleuni sydd yn fwy llachar nag unrhyw oleuni arall. Diolch i ti am y goleuni sydd wedi herio'r tywyllwch o'm henaid. Amen.